# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN(3)-22-09 " "

**Dyddiad: Dydd Iau 12 Tachwedd 2009**
**Amser: 1.30- 2.10pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro (Cadeirydd)
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Franks, Canol De Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Nick Ramsay, Mynwy
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Catherine Hunt, Dirprwy Glerc

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar a Huw Lewis. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

### 2. Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010-11 - Adroddiad drafft y Pwyllgor

2.1 Cododd Alun Davies bwynt o drefn ynghylch aelodau'r Pwyllgor yn rhannu'r adroddiad drafft â thrydydd parti.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gofyn am arweiniad i ganfod a gafodd unrhyw Reolau Sefydlog neu reolau eraill eu torri.

2.3 Gwnaeth Chris Franks ddatganiad i'r Pwyllgor, a chynnig y dylid cynnwys y datganiad yn yr adroddiad.

2.4 Pleidleisiodd y Pwyllgor i benderfynu a ddylid cynnwys datganiad Chris Franks yn yr adroddiad:

O blaid: 1 - Chris Franks

Yn erbyn: 6 - Angela Burns, Alun Davies, Ann Jones, Nick Ramsay, Joyce Watson, Kirsty Williams

Ymataliadau: 0

2.5 Pleidleisiodd y Pwyllgor yn erbyn cynnwys y datganiad yn yr adroddiad.

2.6 Pleidleisiodd y Pwyllgor i benderfynu a ddylid derbyn fersiwn 13 o'r adroddiad heb ei ddiwygio:

O blaid: 6 - Angela Burns, Alun Davies, Ann Jones, Nick Ramsay, Joyce Watson, Kirsty Williams

Yn erbyn: 1 - Chris Franks

Ymataliadau: 0

2.7 Cytunwyd ar yr adroddiad a bydd yn cael ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno.

### O dan Reol Sefydlog 10.37, cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat

3. Goblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru) - Adroddiad drafft y Pwyllgor

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft ac y dylid ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno.

### 4. Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2010-11 - Adroddiad drafft y Pwyllgor

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft ac y dylid ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno.

### Gwasanaeth y Pwyllgorau